Welsh Correspondence of the French Revolution 1789-1802

Edited by/Golygwyd gan

Ffion Mair Jones



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies

Welsh Correspondence of the French Revolution 1789–1802 is a collection of letters written during the years of the French Revolution and the subsequent continental wars. They were sent by or to people resident in Wales, to or from France, Ireland, North America or England, as well as within the boundaries of Wales itself. The volume opens with the voice of the renowned philosopher Richard Price, writing to Thomas Jefferson, American ambassador to Paris, to express his elation at hearing of the extraordinary changes afoot in France during the summer of 1789. The Baptist Morgan John Rhys writes of his efforts to establish Protestant meeting places in Nord-Pas-de-Calais. It becomes apparent that the effects of events in France are far-reaching, and that their repercussions will be felt in Wales. The voices of the ruling classes reveal the astuteness of the view expressed by Price in his letter to Jefferson: 'You may be sure that what is passing in France cannot be very agreeable to the courtiers and Tories in this country'. We see Thomas Pennant establishing a Loyalist Association in Flintshire, and churchmen in Meirionethshire encouraging young men to apply themselves to careers in the navy. The letters of the stonemason Iolo Morganwg, or the report by Richard Powel from Ysbyty Ifan about a riot at Denbigh in 1795, suggest that the ruling classes' fears are not without foundation. And as a backdrop to these agitations we hear the voices of the women left at home: a young Quaker writes of the arrival of the French at Haverfordwest following their unsuccessful landing near Fishguard, and Sarah Tighe writes to her relative Sarah Ponsonby, at Llangollen, of the cruelties of the Irish Rebellion of 1798.

This volume aims to bring these voices to life, thereby ensuring recognition of the importance of the French Revolution to the Wales of this period. The volume includes an introduction, detailed notes on more than forty letters, with translations from French and Welsh, as appropriate.

Casgliad o lythyrau a ysgrifennwyd yn ystod blynyddoedd y Chwyldro Ffrengig a'r rhyfeloedd ar gyfandir Ewrop a ddaeth yn ei sgil sydd yn y gyfrol *Welsh Correspondence of the French Revolution 1789–1802*. Mae cysylltiad rhyngddynt oll a Chymru: fe'u hanfonwyd gan neu at bobl yn byw yno, i neu o Ffrainc, Iwerddon, Gogledd America neu Loegr, yn ogystal ag o fewn ffiniau Cymru ei hun. Cynhwysir enwau adnabyddus ochr yn ochr â rhai cwbl ddinod. Agorir y gyfrol gyda llais yr athronydd blaenllaw Richard Price, sy'n ysgrifennu at lysgennad America ym Mharis, Thomas Jefferson, i fynegi ei orfoledd o glywed am y newidiadau eithriadol yn Ffrainc yn ystod haf 1789. Mae llythyrau'r Bedyddiwr Morgan John Rhys yn adrodd am ei ymdrechion i sefydlu addoldai Protestannaidd yn Boulogne-sur-mer a Calais. Daw'n eglur fod effaith digwyddiadau yn Ffrainc ym bellgyrhaeddol, ac nad yw Cymru'n dianc o'u gafael. Mae lleisiau'r dosbarth llywodraethol yn dangos treiddgarwch sylwad Price yn ei lythyr at Jefferson: 'You may be sure that what is passing in France cannot be very agreeable to the courtiers and Tories in this country'. Gwelir Thomas Pennant yn ymroi i sefydlu Cymdeithas Deyrngarol Sir y Fflint, ac eglwyswyr yn sir Feirionnydd yn annog gwŷr ifanc i ymadael am yrfa yn llongau Ei Fawrhydi. Cadarnheir nad yw ofnau'r dosbarthiadau llywodraethol yn ddi-sail yn llythyrau'r saer maen Iolo Morganwg, neu yn adroddiad Richard Powel o Ysbyty Ifan ynghylch cythrwfl yn Ninbych yn 1795. Ac yn gefnlen i'r cyffroadau hyn oll clywir lleisiau'r menywod a adawyd gartref: ysgrifenna Crynwraig ifanc ynghylch cyrhaeddiad y Ffrancod yn Hwlffordd wedi eu glaniad aflwyddiannus yn Abergwaun, a rhydd Sarah Tighe adroddiad ynglŷn â gwrthryfel gwaedlyd yn Iwerddon yn 1798 mewn llythyr at ei pherthynas, Sarah Ponsonby, yn Llangollen.

Dod â'r lleisiau hyn yn fyw yw bwriad y gyfrol hon, gan sicrhau wrth wneud hynny gydnabyddiaeth i berthnasedd blynyddoedd y Chwyldro Ffrengig i hanes a datblygiad Cymru ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r ganrif ddilynol. Ceir yn y gyfrol ragymadrodd, ynghyd â nodiadau manwl ar dros ddeugain o lythyrau, gyda chyfieithiadau o'r Gymraeg a'r Ffrangeg, fel bo'n briodol.

pp/tt. x + 163, December/Rhagfyr 2018, softback/clawr meddal
ISBN 978-1-907029-29-5

£15

ORDER FORM/FFURFLEN ARCHEBU

☐ I would like to order a copy of *Welsh Correspondence of the French Revolution 1789–1802* for £15 + postage (if applicable: £2 is charged for postage within the UK)

☐ Hoffwn archebu copi o *Welsh Correspondence of the French Revolution 1789–1802* am £15 + tâl cludiant (os yw'n berthnasol: codir £2 y gyfrol am gludiant o fewn y Deyrnas Unedig)

NAME/ENW: ..... I ENCLOSE/AMGAEAF £.....

ADDRESS/CYFEIRIAD:
.....
.....
.....

POSTCODE/COD POST: .....

EMAIL/EBOST .....

SIECIAU'N DALADWY I 'PRIFYSGOL CYMRU'
CHEQUES PAYABLE TO 'THE UNIVERSITY OF WALES'

DYCHWELER AT/RETURN TO:

ANGHARAD ELIAS,
CAWCS/CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD,
NATIONAL LIBRARY OF WALES/LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU,
ABERYSTWYTH,
CEREDIGION, SY23 3HH
(01970) 636543
a.elias@cymru.ac.uk